# MOLD TOWN COUNCIL
# CYNGOR TREF YR WYDDGRUG

Unit 10
Daniel Owen Precinct
Mold
Flintshire
CH7 1AP

Telephone: 01352 758532
Fax: 01352 755804

www.moldtowncouncil.org.uk

Uned 10
Canolfan Daniel Owen
Yr Wyddgrug
Sir y Fflint
CH7 1AP

Ffôn: 01352 758532
Ffacs: 01352 755804

**Aelodau Cyngor Tref yr Wyddgrug**

24ain Hydref 2025

Aelodau'r Cyngor

Annwyl Gynghorydd

Fe'ch gelwir trwy hwn i gyfarfod Cyngor Tref yr Wyddgrug a gynhelir am **6.00pm Ddydd Mercher 29ain Hydref, 2025** yn Swyddfeydd Cyngor Tref yr Wyddgrug, Uned 10, Canolfan Daniel Owen, Yr Wyddgrug CH7 1AP. Bydd ar gael hefyd drwy Gynhadledd Fideo fel cyfarfod hybrid, gwelwch y ddolen isod.

Yn gywir iawn,

Clerc y Dref a Swyddog Cyllid

## AGENDA

**CYFRANOGAETH Y CYHOEDD**

Mae ymrwymiad gan Gyngor Tref yr Wyddgrug i ymgysylltu â'r gymuned ac felly mae'n estyn croeso cynnes i aelodau'r cyhoedd i'r cyfarfod hwn. Mae Rheolau Sefydlog Cyngor Tref yr Wyddgrug yn caniatáu clustnodi 15 munud o dan yr eitem 'Cyfranogaeth y Cyhoedd' ar yr agenda gan ddyrannu hyd at 5 munud fesul pwnc.

Mae'n rhaid i'r rhai sydd eisiau cyfarch y cyfarfod o dan Gyfranogaeth y Cyhoedd:

- Roi gwybod i Glerc y Dref eu bod eisiau siarad, a hynny erbyn 4.30pm ar y diwrnod cyn cyfarfod y Cyngor Tref.
- Gyfeirio pob sylw/cwestiwn at gadeirydd y cyfarfod.

Dylai aelodau'r cyhoedd nodi y bydd y cyngor ond yn trafod pynciau sydd wedi eu cyhoeddi ar yr agenda, a dim ond am y rhain y gall wneud

penderfyniadau. Os na fydd unrhyw faterion yn cael eu codi, bydd cyfarfod y Cyngor Tref yn cychwyn am 6pm.

**1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

**Derbyn** ymddiheuriadau am absenoldeb.

**2. DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

**Derbyn** unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb sy'n hysbys am eitemau ar yr agenda.

**3. CYHOEDDIADAU'R MAER**

**Derbyn** Cyhoeddiadau'r Maer

**4. COFNODION**

4.1 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 22ain Medi 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.2 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar 24ain Medi 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.3 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Polisi ac Archwilio a gynhaliwyd ar 14eg Hydref 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.4 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 20fed Hydref 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir

4.5 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Datblygu ac Adfywio Cymuned a gynhaliwyd ar 21ain Hydref 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

4.6 **Derbyn** cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Personél a gynhaliwyd ar 22ain Hydref 2025 (ynghlwm) a'u cymeradwyo fel cofnod cywir.

**5. GOHEBIAETH:**

**Nodi**'r ohebiaeth ddilynol a dderbyniwyd ac **ystyried** lle bo raid pa gamau gweithredu sy'n angenrheidiol:

(a) Nicola Price – Queens Park a Bromfield Lane

**6. RHESTR WEITHREDU**

**Nodi**'r Rhestr Weithredu ddiweddaraf sydd ynghlwm.

**7. ADRODDIADAU SWYDDOGION**

(i) **Derbyn** adroddiad gan y Swyddog Digwyddiadau ac Ymgysylltu Cymunedol (ynghlwm).

**Penderfyniad yn ofynnol:** Parcio am ddim yng Nghanol y Dref ar gyfer Cyfnod y Nadolig.

(ii) **Derbyn** adroddiad gan Glerc y Dref a'r Swyddog Cyllid (ynghlwm).

**Penderfyniad yn ofynnol:** Bod y Cyngor yn awdurdodi Clerc y Dref i lofnodi'r cytundeb rhyddhau gyda Rawson's ac yn cwblhau mandad Debyd Uniongyrchol i hwyluso taliadau misol am logi'r peiriant llungopïo newydd ac am y copïau.

**Penderfyniad yn ofynnol:** Cymorth y Cyngor i ysgrifennu at Gyngor Sir y Fflint i ailsefydlu Fforymau Sirol, adfer sianel gyfathrebu strwythuredig a rhoi gwybod i'r dref am benderfyniadau gwasanaethau lleol.

**Penderfyniad yn ofynnol:** Cymorth y Cyngor i ofyn i Gyngor Sir y Fflint am arweiniad, cyllid a chefnogaeth ar gyfer ymgyrch, er enghraifft "Mold After Dark," er mwyn codi proffil y dref ac ennyn diddordeb ymwelwyr.

**8. CYNNIG GAN Y CYNGHORYDD NANETTE DAVIES**

Bod y Cyngor Tref yn gwahodd Sam Langdon, Swyddog Bioamrywiaeth, Gogledd Cymru, o Un Llais Cymru, i ymweld â'r Wyddgrug a rhoi arweiniad am weithredoedd y gallai'r Cyngor eu gwneud yn rhan o'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth newydd.

**9. ADRODDIAD CYDNABYDDIAETH BLYNYDDOL DRAFFT 2026-27**

**Ystyried** Adroddiad Cydnabyddiaeth Blynyddol 2026-27 a'r ymgynghoriad sydd ynghlwm.

**10. DATBLYGIAD CHWARAE SIR Y FFLINT, CYNLLUN CHWARAE'R HAF**

**Nodi** bod y dogfennau dilynol sydd ynghlwm wedi'u derbyn ac **ystyried** lle bo raid pa gamau gweithredu sy'n angenrheidiol:

(a) Adroddiad Diwedd yr Haf – Cyngor Tref yr Wyddgrug
(b) Cylchlythyr Datblygu Chwarae Sir y Fflint
(c) E-bost gan Darren Morris – 07.10.25
(d) Costau Cynllun Chwarae'r Haf ar gyfer 2026
(e) Ffurflen Gadarnhau Cynllun Chwarae'r Haf 2026

**11. COEDWIG GENEDLAETHOL CYMRU**

**Ystyried** cais am gymorth gan Gyngor Sir y Fflint, Gwasanaethau Cefn Gwlad i wneud cais am statws Coedwig Genedlaethol ar gyfer Bryn y Beili. Mae gwybodaeth berthnasol ynghlwm (mae dogfennau cefnogi ynghlwm).

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL CYNGOR TREF YR WYDDGRUG 2024-25 – DRAFFT**

**Ystyried** Adroddiad Blynyddol Cyngor Tref yr Wyddgrug 2024-25 sydd ynghlwm.

## 13. POLISI AC ARCHWILIAD

**Ystyried** yr argymhellion gan y Pwyllgor Polisi ac Archwiliad i fabwysiadu'r polisïau newydd a ganlyn:

(a) Polisi Gwrth-dwyll ac Anonestrwydd
(b) Ffurflen Hunanasesiad a Chynllun Gwerthuso
(c) Polisi Bwlio ac Aflonyddu
(d) Polisi Gallu
(e) Polisi a Gweithdrefn Pryderon a Chwynion
(f) Ffurflen Bryderon a Chwynion
(g) Ffurflen Gyfarchion
(h) Polisi a Gweithdrefn Disgyblaeth a Chwynion
(i) Polisi Chwythu'r Chwiban
(j) Recordio Sain, Ffilmio, Ffotograffiaeth ac Adroddiadau Cyfarfodydd y Cyngor a Phwyllgorau
(k) Hysbysiad preifatrwydd
(l) Hysbysiad preifatrwydd CCTV

## 14. PWYLLGOR PERSONÉL

**Ystyried** yr argymhellion sydd ynghlwm gan y Pwyllgor Personél.

## 15. HYSBYSIAD AM BENDERFYNIADAU CYNLLUNIO

**Nodi**'r penderfyniadau cynllunio sydd ynghlwm.

## 16. CYFRIFON / TALIADAU

**Cymeradwyo'**r amserlenni sydd ynghlwm sy'n dangos y cyfrifon i gyd – Mis 6, gan nodi bod taliadau'n cael eu gwneud yn unol â phwerau'r cynghorau lleol.

**NODWCH:**
Mae caniatâd i aelodau'r wasg a'r cyhoedd fynychu'r cyfarfod hwn (ond nid i siarad heblaw eu bod wedi trefnu hynny o flaen llaw gyda Chlerc y Dref a'r Swyddog Cyllid).

## CYFARWYDDIADAU ZOOM

**https://us02web.zoom.us/j/89282178432?pwd=30a4yPzsufbbWdZq8oKW7hlPAgb5Ut.1**

**ID y Cyfarfod: 892 8217 8432**
**Cyfrinair: 417632**